BRITISH COUNCIL

GREAT BRITAIN

RSC ROYAL SHAKESPEARE COMPANY

# SHAKESPEARE LIVES MEWN YSGOLION

## PECYN ADNODDAU I ATHRAWON



www.shakespearelives.org

#ShakespeareLives

# Crëwyd y pecyn Shakespeare Lives hwn i ysgolion gan y British Council a'r Royal Shakespeare Company ar achlysur 400 mlwyddiant marwolaeth Shakespeare yn 2016.

Mae'n archwilio Shakespeare fel awdur sy'n dal i siarad ar ran pawb o bedwar ban byd, gan roi sylw i gwestiynau a themâu pwysig ynglŷn â'r profiad dynol a'r hyn y mae'n ei olygu i fod yn ddinesydd yn yr 21ain ganrif. Mae'r pecyn hwn yn annog athrawon a disgyblion i ystyried rhai o'r materion, themâu a syniadau yn nramâu Shakespeare, a'r ffyrdd y maent yn parhau i fod yn berthnasol a chyfredol yn ein bywydau ni heddiw, ble bynnag rydyn ni yn y byd.


Mae dramâu Shakespeare wedi cael eu llwyfannu sawl gwaith ers iddo eu hysgrifennu dros 400 mlynedd yn ôl, ac mae sawl ffordd wahanol o ddehongli ei waith o hyd; bydd pob dehongliad yn amlygu themâu a syniadau gwahanol, a gobeithiwn y byddwch yn mwynhau archwilio'r rhai rydym wedi'u datblygu yn y pecyn hwn.



© RSC. Llun gan Ellie Kurttz.

# ‘O, THIS LEARNING, WHAT A THING IT IS!’

## THE TAMING OF THE SHREW
## ACT 1 GOLYGFA 2




| | |
|---|---|
| **Sut i ddefnyddio’r pecyn hwn** | 05 |
| **Awgrymiadau defnyddiol ar gyfer archwilio dramâu Shakespeare** | 06 |
| **Arweinyddiaeth a grym** A yw arweinwyr yn cael eu geni neu eu meithrin? | 08 |
| **Teulu a chydberthnasau** Ai rhieni sy’n gwybod orau bob amser? | 14 |
| **Hunaniaeth a chydraddoldeb** A yw pawb yn cael eu geni’n gyfartal? | 24 |
| **Ffawd a thynged** A yw pobl yn rheoli eu dyfodol eu hunain? | 34 |
| **Cyfiawnder a rheolau** A fyddai anhrefn heb reolau? | 44 |
| **Cyflwyniad i ddefnyddio dulliau gweithredu sy’n seiliedig ar theatr** | 52 |

# PARTNERIAID



© RSC. Llun gan Rob Freeman.

**'Mae Shakespeare yn ddramodydd i'r byd i gyd a bydd y pecyn hwn i ysgolion gan y British Council, a luniwyd mewn partneriaeth â'r Royal Shakespeare Company, yn helpu pobl ifanc yn y DU a thramor i ehangu eu gorwelion. Drwy'r adnodd newydd hwn, gall pobl ifanc ymdreiddio i fyd bywiog dramâu Shakespeare a chael cipolwg newydd ar ei waith drwy themâu sydd yr un mor berthnasol i ni heddiw ag yr oeddent 400 mlynedd yn ôl.'**

Syr Ciarán Devane, Prif Weithredwr, British Council

**'Yn yr RSC, credwn fod gwaith Shakespeare yn perthyn i bawb a'i fod yn rhan bwysig o'r etifeddiaeth ddiwylliannol a rennir gennym: etifeddiaeth y dylai pob disgybl allu cael gafael arni. Drwy archwilio rhai o'r themâu a'r syniadau allweddol sy'n codi drwy waith Shakespeare, gobeithiwn y bydd yr adnodd hwn yn galluogi eich disgyblion i ddarganfod pa mor berthnasol yw gwaith Shakespeare i'w bywydau hwy heddiw, gan ein helpu i feithrin dealltwriaeth ddyfnach ohonom ein hunain, ein gilydd, ac o'r byd sydd ohoni.'**

Gregory Doran, Cyfarwyddwr Artistig, Royal Shakespeare Company

BRITISH COUNCIL

Y British Council yw sefydliad rhyngwladol y Deyrnas Unedig dros gyfleoedd addysgol a chydberthnasau diwylliannol. Rydym yn creu cyfleoedd rhyngwladol i bobl y DU a gwledydd eraill gan feithrin ymddiriedaeth rhyngddynt yn fyd-eang.

RSC ROYAL SHAKESPEARE COMPANY

Diben yr RSC yw creu'r profiad gorau o waith Shakespeare yn cael ei berfformio a rhannu'r gwaith hwnnw â'r gynulleidfa ehangach yn Stratford-upon-Avon, Llundain, ledled y DU, ac ymhob rhan o'r byd. Rhown bwyslais arbennig ar rannu etifeddiaeth gwaith Shakespeare â phlant a phobl ifanc, gan eu hannog i feithrin cydberthynas gydol oes â Shakespeare a theatr fyw.

# SUT I DDEFNYDDIO'R PECYN HWN

Nod y pecyn hwn yw helpu athrawon ledled y byd i ddod â dramâu Shakespeare yn fyw a hybu dysgu ar draws y cwricwlwm. Fe'i rhennir yn bum thema allweddol: **Arweinyddiaeth a grym, Teulu a chydberthnasau, Hunaniaeth a chydraddoldeb, Ffawd a thynged a Chyfiawnder a rheolau**.

O fewn pob adran thema, ceir ystod eang o weithgareddau i ddisgyblion rhwng 7 ac 14 oed. Gallwch addasu'r rhain i fod yn addas ar gyfer oedran y plant rydych yn eu haddysgu a'u defnyddio fel mannau cychwyn o fewn gwersi unigol neu fel elfennau o brosiect trawsgwricwlaidd y gellir ei wneud ar y cyd ag ysgol bartner dramor.

Drwy'r pecyn, ceir hefyd nodiadau i athrawon ynghyd â chwestiynau archwiliadol, ffocysau dysgu, awgrymiadau ar gyfer gweithgareddau a phwyntiau trafod, darnau o ddramâu, cysylltiadau â'r cwricwlwm a chyfeiriadau at sgiliau a rhagolygon dinasyddiaeth. Wrth ddefnyddio'r darnau o ddramâu, efallai y bydd yn ddefnyddiol i chi gynyddu maint y ffont pan fyddwch yn ei gopïo, er mwyn ei gwneud yn haws i'ch disgyblion ei ddarllen.

Gallwch hefyd ddod o hyd i gynnwys ychwanegol a darnau o ddramâu yn **https://schoolsonline.britishcouncil.org/classroom-resources/list/shakespeare-lives**, lle gallwch lawrlwytho rhagor o gopïau o'r pecyn yn Gymraeg ac yn Saesneg.

Gellir archwilio llawer o'r syniadau a'r gweithgareddau mewn ystafell ddosbarth draddodiadol. Ar gyfer rhai ohonynt, bydd angen symud y desgiau i'r naill ochr neu eu cynnal mewn lle mwy o faint, gan eu bod wedi'u hysbrydoli gan ddefnydd actorion a chyfarwyddwr yr RSC o ystafell ymarfer.

## ALLWEDD

**Cadwch olwg am yr eiconau hyn sy'n tynnu sylw at wybodaeth allweddol. Maent yn eich helpu i ganfod eich ffordd yn haws o gwmpas y ddogfen hon.**

- **Cwestiynau allweddol**
- **Adnoddau angenrheidiol**
- **Archwiliwch**
- **Taflenni gwaith i'w hargraffu**
- **Nodiadau**

Os yw defnyddio dulliau sy'n seiliedig ar theatr yn yr ystafell ddosbarth, neu eu cymhwyso at ddramâu Shakespeare, yn newydd i chi, efallai y bydd yn ddefnyddiol i chi weithio drwy'r syniadau yn adran olaf y pecyn. Mae'r adran olaf yn canolbwyntio ar **Julius Caesar**, ond mae llawer o'r gweithgareddau a amlinellir yma yn rhai y gellir eu haddasu i'w defnyddio mewn rhannau eraill o'r adnodd.

Beth am i chi edrych ar ddramâu Shakespeare mewn ffyrdd gwahanol. Gwyliwch addasiad ffilm neu darllenwch y ddrama wedi'i chyfieithu i'ch iaith eich hun; defnyddiwch pa ddull bynnag sy'n sicrhau bod Shakespeare o fewn cyrraedd eich myfyrwyr.

Cofiwch, ysgrifennu ar gyfer llwyfan a wnaeth Shakespeare – mae ei ddramâu wedi'u bwriadu i gael eu perfformio a'u rhannu â chynulleidfa. Petaem ond yn eu darllen yn unig, gallem golli rhan fawr o'u hapêl a'r hyn sy'n eu gwneud yn ddiddorol. Rydym yn eich annog i rannu'r pecyn hwn â'ch ysgol bartner, ei ddefnyddio fel man cychwyn i gynllunio eich gwersi eich hun a dechrau archwilio'r byd drwy Shakespeare.

Ar ôl i chi roi cynnig ar rai o'r gweithgareddau, rhannwch berfformiad a ysbrydolwyd gan Shakespeare â'ch cymuned. Gallai hyn olygu drama gyfan, araith, neu ddarn o ysgrifennu creadigol gan fyfyrwyr mewn ymateb i'ch gwaith ar y themâu. Meddyliwch am ffyrdd o gynnwys eich ysgol bartner yn y gweithgaredd hwn.

Mae llawer o syniadau ar sut i ddathlu ac archwilio dramâu Shakespeare yn eich ysgol a'ch cymuned leol ar gael ar wefan yr RSC: **www.rsc.org.uk/education**, gan gynnwys casgliad o adnoddau a baratowyd yn arbennig er mwyn eich helpu i lwyfannu eich cynhyrchiad eich hun o **A Midsummer Night's Dream**.

# AWGRYMIADAU DEFNYDDIOL AR GYFER ARCHWILIO DRAMÂU SHAKESPEARE

**Datblygwyd yr awgrymiadau canlynol gan yr RSC, ar sail blynyddoedd o brofiad yn yr ystafell ymarfer ac o berfformio. I gael rhagor o fanylion am sut y gellir datblygu'r dulliau hyn a dulliau eraill ymhellach ar gyfer drama benodol, edrychwch ar yr adran 'Cyflwyniad i ddefnyddio dulliau sy'n seiliedig ar theatr'.**

## 1 MYFYRWYR YN DDITECTIFS

Wrth astudio Shakespeare, anogwch y disgyblion i feddwl fel ditectifs. Mae'r cliwiau i gyd yno yn yr iaith, ond mae'n rhaid eu rhoi at ei gilydd fesul darn. Bydd darllen y testun mewn mwy nag un ffordd wir yn helpu'r disgyblion i archwilio rhai o'r cliwiau hyn. Er enghraifft, bydd gofyn i'r disgyblion ddarllen golygfa gefn wrth gefn mewn parau, gan sibrwd, yn codi rhywbeth gwahanol iawn o'r ddrama o gymharu â gofyn i'r disgyblion gerdded o gwmpas wrth iddynt ddarllen a phwysleisio pob gair sy'n gysylltiedig â thema, fel teulu neu rym. Peidiwch â bod ofn darllen darn gyda'r disgyblion mewn tair neu bedair ffordd wahanol; byddant yn deall rhywbeth newydd bob tro.

## 2 GWEITHGAREDDAU DECHRAU SY'N ENNYN DIDDORDEB AR GYFER ARCHWILIO'R PRIF THEMÂU

Mae'r gemau yn hyblyg dros ben a gellir eu haddasu i ddiwallu anghenion fwy neu lai unrhyw destun rydych yn gweithio arno. Os byddwn yn chwarae 'Camau Mam-gu', a bydd rhywun yn sleifio y tu ôl i'r sawl sy'n ceisio dal y gweddill, gall yr aelod o'r dosbarth sydd yn y blaen chwarae rôl y Brenin Duncan. Pan fydd yn troi ac yn pwyntio at un o'i gyd-ddisgyblion sy'n symud tuag ato, gall chwarae rôl cydwybod Macbeth, yn dweud yn uchel rywbeth y gallai Macbeth fod yn ei feddwl wrth iddo symud tuag at ystafell y Brenin Duncan. Neu, gallai'r sawl sy'n ceisio dal y gweddill chwarae rôl Prospero a gallai ei gyd-ddisgyblion chwarae rôl Caliban yn dweud **'This island's mine'** os caiff ei ddal yn symud tuag eu harweinydd.

## 3 CREU DELWEDDAU O'R CYMERIADAU

Rhowch y disgyblion mewn grwpiau bach o rhwng tri a phump i greu delweddau sy'n galluogi'r dosbarth cyfan i archwilio'r cymeriadau allweddol. Er enghraifft, mae gofyn iddynt greu lluniau llonydd neu fframiau fferru o: 'Brenin a'i ddeiliaid', 'Tair gwrach yn cwrdd' neu 'Filwyr yn dychwelyd o frwydr' yn eich galluogi i gyflwyno cymeriadau a sefyllfaoedd allweddol yn rhan gyntaf y ddrama. Gallwch hefyd ofyn i'r grwpiau greu delweddau mewn ymateb i linellau penodol o'r testun a gweld sut mae gwahanol ddisgyblion yn eu dehongli: **'Brave Macbeth, well he deserves that name'** neu **'Unseamed him from the nave to th'chops'**.

## 4 GOSOD TERFYNAU AMSER

Rhowch ddeg eiliad i'r grwpiau greu llun llonydd. Mae hyn yn ddigon o amser iddynt gwblhau'r dasg gyntaf, ond hefyd yn gyfnod digon byr fel na fydd ots gan y plant gyda phwy y byddant yn gweithio. Gall hefyd fod yn her dda gofyn i grwpiau weithio heb siarad.

## 5 ANNOG Y DISGYBLION I WNEUD DEWISIADAU DEONGLIADOL

Cofiwch fod pob drama yn gyfuniad o ffaith a dehongliad. Er enghraifft, yn **Macbeth**, mae tair menyw yn dweud wrth Macbeth y bydd yn dod yn frenin ryw ddiwrnod, ond mae sut y gallent ymddangos, diflannu, symud a siarad ar lwyfan yn agored i'ch dehongliad chi.

Gall disgyblion wneud dewisiadau deongliadol ynglŷn â llwyfannu, dylunio ac ystyr. Ni ŵyr neb sut y dylai Macbeth edrych, na sut y mae ysbryd Banquo yn edrych. Mae hyd yn oed penderfyniad i'w wneud ynghylch p'un a yw ysbryd Banquo yn ymddangos ar y llwyfan ai peidio. Os credwch y dylai ymddangos ar y llwyfan, bydd y gynulleidfa'n gallu gweld y tu mewn i feddwl Macbeth a chydymdeimlo ag ef. Os credwch na ddylai ymddangos, bydd y gynulleidfa'n gweld pa mor gythryblus y mae Macbeth yn ymddangos i'w westeion.

## 6 YCHWANEGU GWYBODAETH GYMDEITHASOL A HANESYDDOL ER MWYN RHOI CYD-DESTUN BYD GO IAWN I'R GWAITH

Pan fydd y disgyblion yn deall, er enghraifft, bod llawer o bobl mewn cynulleidfa Seisnig yn credu y gallai'r gynulleidfa dylwyth teg fod yn un sbeitlyd ac y gallai Noswyl Ifan fod yn adeg beryglus o'r flwyddyn pan fyddai porth yn agor rhwng y byd dynol a byd y tylwyth teg, gall eu gwaith ar **Macbeth** ac **A Midsummer Night's Dream** fagu ystyr newydd. Ein her heddiw yw dod â gwaith Shakespeare yn fyw mewn ffordd sy'n golygu ei fod yn cael yr un effaith bwerus ar gynulleidfaoedd ag yr oedd 400 mlynedd yn ôl.

## 7 DEFNYDDIO'R TESTUN GWREIDDIOL, OND PEIDIO Â BOD OFN EI OLYGU

Gwyddom fod cyfoeth a choethder iaith Shakespeare yn ennyn diddordeb plant, ac nid oes ots ganddynt os nad ydynt yn ei deall i gyd – a dweud y gwir, mae hynny'n rhan o'r pleser. Mae'n her gyffrous archwilio ystyr geiriau ac ymadroddion anarferol. Ond dylech olygu'r testun yn ddarnau o faint hawdd eu trin. Er enghraifft, tynnwch ddeg llinell allan o'r testun sy'n dilyn trywydd stori golygfa neu ymson arbennig o ddiddorol, rhowch amser i'r plant ddod yn hyderus gyda'r rhain ac yna ychwanegwch fwy o destun neu ddarganfod beth sy'n digwydd nesaf drwy symud ymlaen i ddarn newydd o'r ddrama.

## 8 ARCHWILIO'R IAITH GYDA'CH GILYDD

Cofiwch fod golygyddion yn aml yn anghytuno ynghylch ystyr geiriau ac ymadroddion, felly mae bob amser yn fwy diddorol dechrau gyda sŵn gair a cheisio dyfalu ei ystyr, yn hytrach na datrys y dirgelwch yn syth drwy edrych yn y troednodiadau.

Mae edrych ar ymadroddion fel **'Peace-parted'**, **'Pick-purse'**, **'Malignant thing'** neu linellau fel **'You cram these words into mine ears against/The stomach of my senses'** yn ffordd wych o archwilio a datrys yr ystyr gyda'ch gilydd.

**I gael gwybod rhagor am ddulliau RSC Education o archwilio dramâu Shakespeare, ewch i www.rsc.org.uk/education**